

DATGANIAD YMGYNGHORI CYMUNEDOL

Piblinell Carbon Deuocsid HyNet North West


Adran 47(1) Deddf Cynllunio 2008

Cyfeirnod y Ddogfen D.0.10

Ymgeisydd: Liverpool Bay CCS Ltd

Cyfeirnod PINS: EN070007

Fersiwn Gymraeg



DIWYGIAD: 03

DYDDIAD: Chwefror 2022

PERCHENNOG Y DDOGFEN: WSP UK Ltd

AWDUR: Kirsty Scott

CYMERADWYWR: Iain Roberts

CYHOEDDUS

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
1.1. Cefndir	Error! Bookmark not defined.
1.2. Cyd-destyn Polisi	Error! Bookmark not defined.
1.3. Diben y Datganiad Ymgynghori Cymunedol	Error! Bookmark not defined.
2. Y DATBLYGIAD ARFAETHEDIG.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
2.1. Ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig	Error! Bookmark not defined.
2.2. Proses gynllunio y Gorchymyn Cyndsyniad Datblygu ..	Error! Bookmark not defined.
2.3. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.....	Error! Bookmark not defined.
3. DULL YMGYNGHORI.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
3.1. Gofynion statudol ar gyfer yr ymgynghoriad.....	Error! Bookmark not defined.
3.2. Amcanion a chwmpas yr ymgynghoriad.....	Error! Bookmark not defined.
3.3. Pwy yr ymgynghorir ag ef.....	Error! Bookmark not defined.
3.4. Hyrwyddo'r ymgynghoriad.....	Error! Bookmark not defined.
3.5. Deunyddiau a gweithgareddau ymgynghori	Error! Bookmark not defined.
3.6. Cael gafael ar sylwadau.....	Error! Bookmark not defined.
ATODIAD A.....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

FFIGURAU

Ffigur 1 - Diagram o'r Biblinell CO ₂	6
Ffigur 2 – Terfynau Gorchymyn ar gyfer Datblygiad Arfaethedig y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.....	13
Ffigur 3 - Terfynau Gorchymyn ar gyfer y biblinell presennol.....	14
Ffigur 4 – Terfynau Gorchymyn ar gyfer y gwaith ffisegol arfaethedig ar gyfer piblinell newydd	15
Ffigur 5 – Y Parth Ymgynghori 500m.....	16

1. CYFLWYNIAD

1.1. CEFNDIR

- 1.1.1. Mae Liverpool Bay CCS Limited ('yr Ymgeisydd') yn cynnig y bydd carbon deuocsid (CO₂) sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddal gan safleoedd diwydiannol presennol a chyfleusterau cynhyrchu hydrogen yn y dyfodol yng ngogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru yn cael ei gludo i'w storio o dan y môr drwy biblinell (sy'n cynnwys elfen o adeiladu o'r newydd ac aildefnyddio biblinell bresennol) at gronfeydd nwy naturiol wedi ei ddisbyddu ym Mae Lerpwl.
- 1.1.2. Mae Liverpool Bay CCS Limited yn gysylltiedig â phartner consortiwm HyNet, Eni UK Ltd. Eni UK yw perchennog a gweithredwr presennol meysydd nwy Bae Lerpwl a'r seilwaith cysylltiedig. Sefydlwyd Liverpool Bay CCS Ltd gan Eni i weithredu fel y cwmni cludo a storio CO₂, sy'n gyfrifol am gyflawni seilwaith a gweithrediadau cysylltiedig.
- 1.1.3. Mae'r Ymgeisydd yn cynnig gosod biblinell CO₂ danddaearol newydd rhwng Ince, ger Stanlow, a'r Fflint, ac addasu at ddibenion gwahanol biblinell sydd eisoes yn bodoli rhwng y Fflint a Thalacre (cyfeirir at y rhan hon o'r biblinell fel 'Piblinell Cysylltiad y Fflint - y Parlwr Du'). Gelwir y rhan hon o brosiect HyNet North West yn Biblinell Carbon Deuocsid HyNet North West a chyfeirir ati yn y ddogfen hon fel "y Datblygiad Arfaethedig".
- 1.1.4. Partneriaeth rhwng Progressive Energy, Eni UK Ltd, Essar, Cadent, Inovyn, Hanson, Cf Fertilisers a Phrifysgol Caer yw consortiwm HyNet North West.
- 1.1.5. Datblygir y Datblygiad Arfaethedig er mwyn lleihau yn sylweddol allyriadau CO₂ rhanbarthol o sectorau anodd eu cyrraedd o'r economi, gan gynnwys diwydiant, gwres a chludiant.
- 1.1.6. Mae'r biblinell CO₂ yn un o nifer o rannau a gyflwynir gan gonsortiwym HyNet North West yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, gan gynnwys pibell hydrogen a chyfleusterau cynhyrchu hydrogen carbon isel. Mae'r rhannau eraill hyn yn cael eu datblygu, gan gael cydsyniad ar eu cyfer, ar wahân. Cyfeirir atynt yn ein hymgyngghoriad statudol er mwyn sicrhau bod ymgynghoreion yn ymwybodol ohonynt.
- 1.1.7. Oherwydd bod y Datblygiad Arfaethedig yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae'n rhaid i'r Ymgeisydd wneud cais o dan Ddeddf Cynllunio 2008 am ganiatâd a elwir yn Orchymyn Cydsyniad Datblygu i adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Cyflwynir y Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn gweinyddu'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ('Ysgrifennydd Gwladol'). Penodir un arolygydd neu banel o arolygwyr i archwilio'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ac i

wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad datblygu ai peidio.

- 1.1.8. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad gyda phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig cyn cyflwyno cais. Yn unol â Deddf Cynllunio 2008, mae'r Ymgeisydd wedi paratoi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn i nodi sut y bydd yn cynnal ymgynghoriad mewn cysylltiad â'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'n rhoi manylion am sut y gall y gymuned leol gymryd rhan a sut y defnyddir sylwadau i ddylanwadu ar ein dyluniad arfaethedig, y mesurau cysylltiedig a'r dull o gyflawni'r Datblygiad Arfaethedig.

1.2. CYD-DESTUN POLISI

- 1.2.1. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Datganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n nodi'r polisi y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei gymharu wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau am Orchmynion Cydsyniad Datblygu. Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol canlynol yn berthnasol i'r Ymgeisydd:
- Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni (EN-1)
 - Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4).
- 1.2.2. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar y Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft y maent yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bydd gan y rhain bwys rhannol neu bwys llawn wrth benderfynu ar y Cais am Orchmynion Cydsyniad Datblygu, gan ddibynnu a fyddant wedi eu dynodi erbyn amser cyflwyno'r cais.
- 1.2.3. Mae gan lywodraeth y DU darged cyfreithiol rwydol i ddod â'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050, o'u cymharu â'r targed blaenorol o ostyngiad o 80% o leiaf o'r lefelau ym 1990. Tynnodd Papur Gwyn Ynni y Llywodraeth (Pweru ein Dyfodol Sero Net, Rhagfyr 2020) sylw at feysydd allweddol ar gyfer chwyldro diwydiannol gwyrdd a'r broses bontio ar gyfer cyrraedd nod sero net 2050. Ystyrir bod dal carbon yn hanfodol er mwyn i'r DU gyrraedd sero net erbyn 2050, a thrwy ddefnyddio'r dechnoleg hon, gall yr Ymgeisydd helpu i ddatblygu'r diwydiant yn yr ardal gan ei datgarboneiddio hefyd. Mae'r biblinell CO₂ yn rhan o brosiect clwstwr Trac 1, HyNet North West, ac mae'n hanfodol i gyflawni targed Llywodraeth y DU o ddal 20-30 miliwn tonnall o CO₂ erbyn 2030.
- 1.2.4. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn darparu'r seilwaith piblinell ar y tir sy'n rhan o'r cynnig ehangach i ddal allyriadau CO₂ o ddiwydiannau ynni-ddwys yn yr ardal, ac o'r gwaith cynhyrchu hydrogen, gan gludo a storio'r allyriadau hyn yn ddiogel o dan y ddaear. Mae dal yr allyriadau CO₂ hyn yn rhan hanfodol o'r ateb i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy helpu i wrthbwysu diwydiannau sy'n

anodd eu datgarboneiddio, ac mae'r ateb hefyd yn cynnwys datgarboneiddio pob un o sectorau'r economi, defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy, hydrogen a cherbydau thrydan yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ynni a newid y ffordd yr ydym yn byw.

1.3. DIBEN Y DATGANIAD YMGYNGHORI CYMUNEDOL





- 1.3.1. Diben y ddogfen hon yw nodi sut y bydd yr Ymgeisydd yn ymgynghori â'r gymuned leol, trigolion a busnesau yn ardal y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi cefndir i'r Datblygiad Arfaethedig, manylion am ble y gellir cael gafael ar wybodaeth ychwanegol neu edrych ar wybodaeth o'r fath, mae'n esbonio sut y gellir gwneud sylwadau ar y cynigion, ac yn nodi proses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn yn cynnwys:
- Amcanion a chwmpas yr ymgynghoriad
 - Manylion am y gweithgareddau ymgynghori arfaethedig, gan gynnwys deunyddiau, digwyddiadau a hyrwyddo
 - Manylion am sut y bydd ymgynghoreion cael y cyfle i gyflwyno eu sylwadau
 - Manylion am sut y bydd yr Ymgeisydd yn rhoi sylw i sylwadau'r ymgynghoriad.
- 1.3.2. Mae'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn hefyd yn nodi sut y bydd yr ymgynghoriad hwn yn bodloni gofynion Deddf Cynllunio 2008. Fe'i paratowyd gan gyfeirio at ganllawiau ar ymgynghori cyn ymgeisio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU (Planning Act 2008: Guidance on the Pre-Application Process), yn ogystal â Nodyn Archwilio Dau yr Arolygiaeth Gynllunio (The role of local authorities in the development consent process) a Nodyn Archwilio Tri (EIA consultation and notification).
- 1.3.3. Yn unol ag adran 47(2) o Ddeddf Cynllunio 2008, mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Chyngor Sir y Fflint.

2. Y DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

2.1. YNGLŶN Â'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

- 2.1.1. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu adeiladu piblinell a fydd yn caniatáu i CO₂ gael ei gludo a'i storio'n ddiogel o dan y ddaear mewn storfa ddaearegol o dan wely'r môr.
- 2.1.2. Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad o ran taith y DU tuag at sero-net a bydd yn helpu i ddatgarboneiddio llawer o sectorau'r economi o ganol y 2020au. Gan ddefnyddio'r biblinell CO₂, bydd yr Ymgeisydd yn galluogi dal a storio allyriadau CO₂ a gynhyrchir gan ddiwydiannau ynni dwys ac o gynhyrchu hydrogen carbon isel.



	Existing Flint to PoA Pipeline
	Proposed Flint AGI to Flint-PoA Pipeline
	Proposed Stanlow - Flint AGI Pipeline
	Proposed Ince - Stanlow Pipeline

Ffigur 1 - Diagram o'r Biblinell CO₂

- 2.1.3. Bydd y Biblinell CO₂ newydd yn cludo CO₂ a gynhrychir o safleoedd diwydiannol presennol yn ardal Ince a Stanlow. Bydd hefyd yn cludo CO₂ o waith cynhyrchu hydrogen carbon isel newydd yn Stanlow. O'r fan hon, bydd yn rhedeg i'r de-orllewin drwy Swydd Gaer ac i Sir y Fflint, gan gysylltu â Phiblinell Cysylltiad y Fflint - y Parlwr Du sydd eisoes yn bodoli.
- 2.1.4. Mae'r biblinell hon sydd eisoes yn bodoli yn rhedeg o leoliad ger y Fflint ac yn teithio i'r gogledd drwy Sir y Fflint i Derfynell Nwy y Parlwr Du yn Nhalacre. Yna, mae'r biblinell yn rhedeg o dan y dŵr oddi wrth y draethlin nes iddi gysylltu â'r cronfeydd nwy wedi ei ddisbyddu lle bydd y CO₂ yn cael ei chwistrellu. Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys cydsyniadau ar gyfer gwaith yn yr ardal forol a fydd yn cael ei gydsynio drwy brosesau eraill. Mae sbardun posibl yn y dyfodol sy'n cael ei ystyried i waith sment Hanson yn Padeswood, ond nid yw wedi ei gynnwys yng nghwmpas y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

2.2. PROSES GYNLLUNIO Y GORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU

2.2.1. I gael cydsyniad datblygu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, bydd rhaid i'r Ymgeisydd ddilyn y camau a nodir yn Neddf Cynllunio 2008. Nodir y rhain yn llawn yn <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>. Crynodeb lefel uchel yn unig yw hwn. Mae'r broses hon yn wahanol i'r broses gynllunio arferol a gynhelir o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, lle byddai'r awdurdod lleol yn ymgynghori â thrigolion lleol ac yn penderfynu ar y cais.

2.2.2. Dyma'r camau:

2.2.3. CYN YMGEISIO

2.2.4. Cyn cyflwyno cais, mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd gynnal ymgynghoriad ar ei gynigion ac ystyried yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses ymgynghori wrth gwblhau'r cais. Yn rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, mae'n rhaid i'r Ymgeisydd ddarparu adroddiad ymgynghori sy'n nodi sut y mae wedi rhoi sylw i'r sylwadau hyn wrth baratoi'r cais.

2.2.5. DERBYN

2.2.6. Mae'r cam derbyn yn dechrau pan fo'r Ymgeisydd yn cyflwyno'r cais i'r Arolygiaeth o dan adran 55 o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio hyd at 28 diwrnod (ac eithrio'r dyddiad pan ddaw'r cais i law) i benderfynu a yw'r cais yn cyrraedd y safonau ai peidio y mae'n ofynnol eu derbyn yn ffurfiol i'w harchwilio.

2.2.7. CYN ARCHWILIO

2.2.8. Yn ystod y cam hwn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi Awdurdod Archwilio (naill ai un arolygydd neu banel sy'n cynnwys arolygwyr o'r Arolygiaeth Gynllunio i fod yn gyfrifol am archwilio'r cais. Ar y cam hwn, gwahoddir rhanddeiliaid i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gynllunio fel 'Parti sydd â Diddordeb' ac i gyflwyno eu safbwyntiau yn ysgrifenedig, os ydynt yn dymuno

gwneud hynny. Yn ystod y cam cyn yr archwiliad, gwahoddir pawb sydd wedi cofrestru a gwneud sylwadau perthnasol i fynd i gyfarfod rhagarweiniol a gynhelir ac a gadeirir gan yr Awdurdod Archwilio. Mae'r cam hwn o'r broses yn cymryd oddeutu thri mis yn dilyn hysbysiad ffurfiol yr Ymgeisydd a chyhoedduswyd cais a dderbynnir.

2.2.9. ARCHWILIAD

2.2.10. Mae gan yr Awdurdod Archwilio chwe mis i gynnal yr archwiliad. Yn ystod y cam hwn, gwahoddir pobl sydd wedi cofrestru fel Partion sydd â Diddordeb i ddarparu rhagor o fanylion am eu safbwyntiau yn ysgrifenedig ac i gymryd rhan mewn gwrandawiadau. Bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried yn ofalus yr holl faterion pwysig a pherthnasol, gan gynnwys sylwadau'r holl Partion sydd â Diddordeb, unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd, ac atebion a roddwyd i gwestiynau a nodwyd yn ysgrifenedig ac a eglurwyd mewn gwrandawiadau llafar.

2.2.11. PENDERFYNIAD

2.2.12. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Archwilio baratoi adroddiad ar y cais i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys argymhelliad, o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod ymchwilio o chwe mis. Yna, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis arall i benderfynu a ddylid cymeradwy neu wrthod y cydsyniad datblygu.

2.2.13. Nodir isod yr amserlen fras ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig a sut y bydd yn mynd rhagddo drwy wahanol gamau y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Gallai'r amserlen hon newid.

- Ch2/Ch3/Ch4 2021: Cwblhau'r gwaith cwmpasu amgylcheddol, gwaith ymgynghori anstatudol, cysylltu â chynghorau lleol ac ymgynghoreion statudol eraill
- Ch1 2022: Cyfnod ymgynghori statudol, gan gynnwys ymgynghori ar yr Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol, a chyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol
- Ch3 2022: Cyflwyno'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu
- Ch3/Ch4 2022: Cyfnod cyn yr archwiliad a hysbysiad o gyfarfod rhagarweiniol
- Ch4 2022 - Ch2 2023: Y cyfnod archwilio
- Ch3 2023: Y cyfnod gwneud penderfyniad ac argymell
- Ch4 2023: Gwneir penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- 2025: Gweithredu masnachol.

2.3. ASESIAID O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 2.3.1. Datblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol fel y'i diffinnir gan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) yw'r Datblygiad Arfaethedig.
- 2.3.2. Cyn dechrau'r asesiad amgylcheddol rhagarweiniol, cyflwynodd yr Ymgeisydd gais am farn gwmpasu i'r Arolygiaeth Gynllunio ym mis Mehefin 2021, i ofyn am farn gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gwmpas a lefel manylion yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad amgylcheddol i'w chyflwyno gyda'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Mabwysiadodd yr Ysgrifennydd Gwladol farn gwmpasu ym mis Gorffennaf 2021. Gellir ei gweld ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/>, ochr yn ochr ag adroddiad cwmpasu'r Ymgeisydd.
- 2.3.3. Bydd y deunyddiau ymgynghori a ddarperir gan yr Ymgeisydd yn cynnwys adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol. Bydd yr adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol hwn yn cyflwyno'r wybodaeth amgylcheddol a gasglwyd hyd yma i ganiatáu i ymgynghoreion ddeall effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y Datblygiad Arfaethedig a bydd yn nodi cynigion cychwynnol ar gyfer unrhyw fesurau lliniaru.
- 2.3.4. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried a, phan fo hynny'n ymarferol ac yn briodol, byddant yn llywio unrhyw waith mireinio ychwanegol i ddyluniad y Datblygiad Arfaethedig a dull lliniaru amgylcheddol yr Ymgeisydd.

3. DULL YMGYNGHORI

3.1. GOFYNION STATUDOL AR GYFER YR YMGYNGHORIAD

- 3.1.1. Yn unol ag adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008, bydd yr Ymgeisydd yn ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan waith adeiladu a gweithrediad y Datblygiad Arfaethedig.
- 3.1.2. Mae Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn nodi: [Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw] 'the applicant must prepare a statement setting out how the applicant proposes to consult, about the proposed application, people living in the vicinity of the land'. Yna, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnal ymgynghoriad yn unol â'r cynigion a nodir yn y datganiad, sef y Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn.
- 3.1.3. Yn ogystal â bodloni'r gofynion ymgynghori a nodir yn Neddf Cynllunio 2008, mae'r broses ymgynghori wedi ei chynllunio i roi cyfle i bobl o bob oed, cefndir ac amgylchiadau bywyd gymryd rhan, gan gynnwys grwpiau demograffig 'anodd eu cyrraedd' neu sydd wedi eu heithrio yn draddodiadol.

3.2. AMCANION A CHWMPAS YR YMGYNGHORIAD

- 3.2.1. Cynhelir yr ymgynghoriad dros gyfnod o 6 wythnos rhwng 9 Chwefror 2022 a 22 Mawrth 2022. Os bydd unrhyw newid i'r dyddiadau hyn, bydd yr Ymgeisydd yn hysbysu cynghorau Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Sir y Fflint ac yn sicrhau bod y dyddiadau newydd yn cael eu hyrwyddo drwy hynethub.co.uk.
- 3.2.2. Bydd yr Ymgeisydd yn ymwybodol o'r holl gyfyngiadau a chanllawiau COVID-19 sydd ar waith ar adeg yr ymgynghoriad. Ar adeg datblygu'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn, rhagwelir efallai y bydd rhai gofynion cadw pellter cymdeithasol o hyd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus. Felly, cynhelir yr ymgynghoriad ar-lein, drwy wefan bwrsasol, a thrwy ddigwyddiadau digidol y gall pobl gymryd rhan ynddynt. Caiff hyn ei gyfuno â rhai digwyddiadau wyneb yn wyneb a chyfleoedd nad ydynt yn ddigidol i weld a chyflwyno sylwadau ar y Datblygiad Arfaethedig, yn amodol ar gyfyngiadau COVID-19. Cynhelir pob digwyddiad wyneb yn wyneb yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar ofynion cadw pellter cymdeithasol.
- 3.2.3. Mae'r dull o ymdrin â'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd yn yr ymgynghoriad anstatudol a gynhaliwyd ym mis Mehefin/Gorffennaf 2021 a ganolbwyntiodd ar y llwybrau posibl ar gyfer y Biblinell CO₂ newydd.
- 3.2.4. Amcanion craidd yr ymgynghoriad fydd darparu gwybodaeth berthnasol ac ymgysylltiol i gymunedau a fydd yn helpu i:

- Esbonio a chodi ymwybyddiaeth o'r Datblygiad Arfaethedig a'r swyddogaeth y gall yr Ymgeisydd ei chwarae wrth helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gefnogi'r gymuned leol
- Ennyn diddordeb ac ymgysylltiad yn y Datblygiad Arfaethedig, a chreu cyfleoedd i bobl gael dweud eu dweud am y Datblygiad Arfaethedig
- Egluro'n glir y manylion technegol y tu ôl i'r Datblygiad Arfaethedig, fel y gall cymunedau wneud sylwadau gwybodol
- Sicrhau bod pob cymuned, unigolyn a pharti sydd â diddordeb yn cael cyfle cyfartal i ddyngu am y Datblygiad Arfaethedig ac i gyflwyno eu safbwyntiau.

3.2.5. Gan fod ymgynghoriad anstatudol wedi bod o'r blaen a ddarparodd wybodaeth ragarweiniol i randdeiliaid am y Datblygiad Arfaethedig, cwmpas yr ymgynghoriad statudol fydd ailgyflwyno'r Datblygiad Arfaethedig i randdeiliaid a chymunedau, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol am y canlynol:

- Yr hyn y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ei gynnwys, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am lwybr y biblinell carbon deuocsid, prosesau adeiladu ac effeithiau amgylcheddol
- Pwysigrwydd dal a storio carbon wrth gyflawni nodau sero net
- Y Broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu
- Esbonio effeithiau amgylcheddol posibl, gan gynnwys effeithiau adeiladu, a dewisiadau lliniaru. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys i raddau helaeth yn yr adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol.

3.2.6. Bydd yr ymgynghoriad yn agored i sylwadau ar bob agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig. Gofynnir am sylwadau penodol ar:

- Benu lwybr manwl y Biblinell CO₂ yn y coridor Piblinell CO₂ arfaethedig
- Effeithiau amgylcheddol posibl a'r mesurau lliniaru arfaethedig
- Effeithiau adeiladu posibl a'r modd bwriadedig o reoli'r rhain
- Meysydd o ddiddordeb cymunedol megis buddion lleol a swyddi.

3.2.7. Dim ond ceisio safbwyntiau ar y Datblygiad Arfaethedig y mae'r ymgynghoriad arfaethedig a nodir yn y Datganiad hwn. Ymgynghorir ar rannau eraill Prosiect HyNet ehangach, gan gynnwys piblinell hydrogen a chyfleuster cynhyrchu hydrogen, neu ymgynghorwyd arnynt eisoes ar wahân.


3.3. PWY YR YMGYNGHORIR Â NHW

3.3.1. Bydd yn hanfodol ymgynghori â grwpiau cymunedol lleol yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys trigolion lleol, busnesau, y rhai sydd wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y Datblygiad Arfaethedig a grwpiau budd cymunedol eraill. Mae grwpiau eraill y mae'n bosibl yr effeithir arnynt yn cynnwys y rhai sy'n anoddach eu cyrraedd nas clywir yn aml sy'n gofyn am


bwyslais penodol ac ymgysylltiad rhagweithiol yn ystod y broses ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc (25 oed neu iau). Bydd yr ymgynghoriad cymunedol a gynhelir yn unol â'r Datganiad hwn yn rhan o ymgynghoriad cydamserol ehangach â'r rhai sydd â buddiannau tir yr effeithir arnynt gan y Datblygiad Arfaethedig, rhanddeiliaid statudol a rhanddeiliaid eraill a chyhoedduswydd cenedlaethol.

Y PARTH YMGYNGHORI


3.3.2. Dengys Ffigur 2 isod Derfynau Gorchymyn y Datblygiad Arfaethedig. Mae Ffigur 3 yn dangos y terfynau gorchymyn ar gyfer y biblinell bresennol, i'w addasu. Mae Ffigur 4 yn dangos y terfynau gorchymyn ar gyfer y biblinell arfaethedig.



Ffigur 2 - Terfynau Gorchymyn ar gyfer Datblygiad Arfaethedig y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu




Ffigur 2 - Terfynau Gorchymyn ar gyfer y biblinell presennol



Ffigur 4 - Terfynau Gorchymyn ar gyfer y gwaith ffisegol arfaethedig ar gyfer piblinell newydd

- 3.3.3. Tynna Ffigur 5 isod sylw at yr ardal sy'n ffurfio'r gymuned leol o amgylch y Datblygiad Arfaethedig y cyfeiriwn ati fel y 'parth ymgynghori'. Mae hyn yn seiliedig ar glustogfa 500m o amgylch Terfynau'r Gorchymyn drafft.
- 3.3.4. Mae'r glustogfa 500m wedi ei dewis yn dilyn dadansoddiad o'r ymateb i'r ymgynghoriad anstatudol. Gwnaethom nodi bod y pryderon a godwyd yn ymwneud yn bennaf â chyffiniau'r biblinell, oddi wrth bobl a oedd ag eiddo ar y llwybr, neu'n gyfagos iddo. Ehangwyd y parth hwn, o'r ardaloedd yr ymgynghorwyd arnynt yn ystod yr ymgynghoriad anstatudol, i gynnwys pob ardal a fydd yn ddarostyngedig i bwerau a geisir drwy'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei hyrwyddo y tu allan i'r parth ymgynghori 500m hefyd, drwy'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, i gasglu safbwyntiau ehangach y gymuned.
- 3.3.5. Bydd y parth ymgynghori hwn yn sail ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo ac ymgynghori eraill a drafodir yn fanylach yn Adran 3.4 a 3.5.



Ffigur 5: Y Parth Ymgynghori 500m

Hygyrchedd a grwpiau anodd eu cyrraedd

- 3.3.6. Bydd yr Ymgeisydd hefyd yn ymgynghori â grwpiau cymunedol lleol, cynrychiolwyr cymunedol a grwpiau buddiant ehangach y bydd ganddynt ddi-ddordeb yn y Datblygiad Arfaethedig.
- 3.3.7. Bydd yn enwedig o bwysig darparu cyfleoedd i bawb sydd â diddordeb posibl yn y Datblygiad Arfaethedig gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Yn draddodiadol, mae hyn yn cynnwys grwpiau demograffig ‘anodd eu cyrraedd’ neu grwpiau demograffig sydd wedi eu heithrio efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt wrth gynllunio gweithgareddau ymgynghori.
- 3.3.8. Yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig, grwpiau anodd eu cyrraedd sy'n benodol o berthnasol yw:
- Pobl sy'n dlawd o ran amser – yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 70.3% o drigolion ward Sir y Fflint a 76.4% o drigolion ward Gorllewin Swydd Gaer a Chaer mewn gwaith. Bydd yn bwysig darparu cyfleoedd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn ystod a'r tu allan i oriau gwaith arferol, yn ogystal â darparu cyfuniad o gyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb (pan fo hynny'n bosibl, gan roi sylw i gyfyngiadau COVID-19) fel y gall pobl gymryd rhan ar adeg sy'n gyfleus iddynt.
 - Pobl hŷn a phobl sydd ag anableddau – Sicrhau bod rhaglenni a deunyddiau digidol yn hygyrch i bob cynulleidfa. Os bydd cyfyngiadau COVID-19 yn eu caniatáu, bydd unrhyw ddigwyddiad wyneb yn wyneb (megis arddangosfeydd cyhoeddus neu fannau adneuo) yn agos at drigolion lleol, gyda dulliau mynediad digonol ac oriau agor addas. Bydd ymgynghoreion hefyd yn gallu

gofyn am gopiâu caled o'r wybodaeth ymgynghori neu mewn fformatau eraill, gan gynnwys testun mawr.

- Pobl nad yw Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf iddynt - bydd ymgynghoreion yn gallu gofyn am gopiâu o'r wybodaeth ymgynghori (gan gynnwys y llyfryn a Chrynodeb Annhechnegol o'r adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol, ond nid yr adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol llawn) mewn ieithoedd eraill hefyd.
- Gan fod y Datblygiad Arfaethedig wedi ei leoli yng Nghymru ac yn Lloegr, bydd y llyfryn, Crynodeb Annhechnegol o'r adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol a ffurflenni sylwadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd cyfieithwyr Cymraeg ar y pryd ar gael hefyd ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb penodol a gweminarau ar-lein.
- Pobl ifanc, 25 oed neu iau, a allai fod yn fwy tebygol o weld y cynlluniau ar y cyfryngau cymdeithasol neu o gael gwybod amdanynt drwy eu hysgol neu goleg.

3.3.9. Ceir rhestr lawn o'r grwpiau cymunedol yr ymgynghorir â nhw yn Atodiad A. Nodwyd y grwpiau hyn drwy ymchwil bwrdd gwaith, ar y cyd ag awdurdodau lleol, ac o sylwadau a gafwyd yn rhan o'r ymgynghoriad anstatudol.

3.4. HYRWYDDO'R YMGYNGHORIAD

HYSBYSEBION PAPURAU NEWYDD

- 3.4.1. Yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, bydd yr Ymgeisydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau adran 47 ac adran 48 yn y papurau newydd lleol canlynol, gydag un hysbysiad yn ymddangos ym mhob papur newydd:
- Flintshire Leader
 - Chester Standard
 - The Chester Chronicle
 - Daily Post
- 3.4.2. Bydd hysbysiadau adran 47 ac adran 48 yn cynnwys manylion am sut y gall pobl ymgysylltu a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad, cyfeiriad gwe porth ymgysylltu y prosiect (hynethub.co.uk) a manylion cyswllt yr Ymgeisydd os bydd cwestiynau neu ymholiadau.
- 3.4.3. Bydd yr hysbysebion yn cael eu cyhoeddi cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol.
- 3.4.4. Bydd yr Ymgeisydd yn ymgymryd â gweithgareddau hyrwyddo ychwanegol i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys dosbarthu deunyddiau cyhoeddusrwydd,

cyfryngau cymdeithasol ac e-byst / llythyrau i grwpiau cymunedol a nodwyd. Disgrifir y gweithgareddau hyn isod.

DOSBARTHU CARDIAU POST

3.4.5. Bydd cerdyn post gwybodaeth yn cael ei ddsbarthu i bob cyfeiriad preswyl a busnes o fewn 500m i'r Terfynau Gorchymyn drafft, sy'n cynnwys:

- Disgrifiad byr o'r hyn a gynigir
- Ffyrdd y gall derbynwyr gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys drwy edrych ar wybodaeth am y Datblygiad Arfaethedig a chyflwyno sylwadau ar-lein ac â ffurflen bapur
- URL gwefan y prosiect
- Manylion cyswllt tîm y prosiect
- Dyddiadau ac amseroedd digwyddiadau (ar-lein ac wyneb yn wyneb, pan fo hynny'n bosibl) a sut i ymuno â nhw
- Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

3.4.6. Bydd rhaglenni cyfryngau cymdeithasol presennol HyNet North West (Twitter, Facebook a LinkedIn) yn cael eu defnyddio i ennyn diddordeb a chyfranogiad yn yr ymgynghoriad. Bydd cyfathrebiadau'n rhoi gwybodaeth ffeithiol a chryno am y Datblygiad Arfaethedig, gan egluro sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

3.5. DEUNYDDIAU A GWEITHGAREDDAU YMGYNGHORI

HYB HYNET

- 3.5.1. Y porth ymgysylltu sefydledig fydd y prif borth ar gyfer ymgynghori: <https://hynethub.co.uk/>. Y porth hwn fydd y lle cyntaf i fynd ato ar gyfer mwyafrif aelodau'r gymuned a phartïon eraill sydd â diddordeb. Bydd yn cynnal cyfres o wybodaeth i ddarparu ar gyfer gwahanol ddiddordebau a lefelau o fanylion. Gellir mynd i'r porth o brif wefan HyNet (www.hynet.co.uk) hefyd.
- 3.5.2. Mae gan y porth wybodaeth am bob agwedd ar y Prosiect gan gynnwys y targed sero net, dal a storio carbon a hydrogen. Cynhelir ymgynghoriad ar biblinell hydrogen HyNet ym mis Ionawr-Mawrth 2022. Gellid cynnal ymgynghoriadau ychwanegol ar rannau eraill o'r Prosiect HyNet ehangach yn y dyfodol.
- 3.5.3. Y porth hefyd fydd y brif raglen i bobl gyflwyno eu sylwadau, ac i gofrestru i gymryd rhan yn y digwyddiadau ar-lein.

LLYFRYN, BYRDDAU A FFURFLEN SYLWADAU

- 3.5.4. Bydd cyfres o ddeunyddiau ymgynghori ar gael y gall pobl eu gweld a hysbysu eu hunain am y Datblygiad Arfaethedig. Bydd y deunyddiau hyn yn cynnwys:
- Llyfryn sy'n amlinellu gwybodaeth gefndirol am y Datblygiad Arfaethedig, manylion am yr hyn a gynigir a ffyrdd o gyflwyno sylwadau
 - Byrddau arddangos sy'n darparu rhagor o wybodaeth am elfennau penodol o'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol am Brosiect ehangach HyNet North West, y broses gynllunio ac ystyriaethau adeiladu
 - Yr adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol
 - Crynodeb Annhechnegol o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol
 - Y Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn
 - Taflenni ffeithiau
 - Holiadur sylwadau.
- 3.5.5. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael ar-lein, i'w gweld ac i'w lawrlwytho. Hefyd, bydd copiâu caled a fformatau eraill o'r deunyddiau ar gael i bobl ar gais. Gwneir manylion am sut i wneud cais am gopiâu caled neu fformatau eraill yn glir ar y wefan ac ar y cerdyn post cyhoeddusrwydd a ddsberthir i bob cyfeiriad yn y parth ymgynghori.
- 3.5.6. Darperir copiâu o'r llyfryn, yr holiadur a Chrynodeb Annhechnegol o'r adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol am ddim ar gais. Bydd copi caled llawn o'r adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol ar gael ar gais hefyd am gost o £200.
- 3.5.7. Bydd copiâu o'r llyfryn yn cael eu hanfon at ysgolion a cholegau yn y parth ymgynghori, neu ychydig y tu hwnt iddo.
- 3.5.8. Cynhelir tri chyflwyniad ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cynhelir y rhain drwy Zoom, gan roi cyfle i gymunedau glywed mwy am y Datblygiad Arfaethedig a thrafod eu safbwyntiau yn uniongyrchol ag aelodau o dîm y prosiect.
- 3.5.9. Yn amodol ar y cyfyngiadau COVID-19 a fydd ar waith ar adeg yr ymgynghoriad, cynhelir saith digwyddiad arddangos wyneb yn wyneb. Bydd yr arddangosfeydd yn cynnwys deunyddiau i alluogi aelodau'r cyhoedd i weld gwybodaeth am y Datblygiad Arfaethedig. Bydd aelodau o dîm y prosiect ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.
- 3.5.10. Pe byddai rhaid newid y dyddiadau hyn, neu pe byddai'n rhaid cynnal digwyddiadau ar-lein yn lle'r digwyddiadau wyneb yn wyneb oherwydd COVID-19, bydd yr Ymgeisydd yn rhoi gwybod i gynghorau Gorllewin Swydd Gaer a

Chaer, a Sir y Fflint ac yn cyhoeddi dyddiadau newydd ar wefan hynethub.co.uk.

3.5.11. Dyma fanylion y digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein:

Dyddiad	Lleoliad	Amser
Dydd Mawrth, 15 Chwefror 2022	Neuadd Bentref Llanasa, Llanasa, Treffynnon, CH8 9NF	2-4pm
Dydd Mawrth, 15 Chwefror 2022	Canolfan Gymunedol Talacre, Gamfa Wen, Talacre, CH8 9RT	5-7pm
Dydd Llun, 28 Chwefror 2022	Vernon Institute, 62 Hermitage Road, Saughall, CH1 6EN	3-7pm
Dydd Sadwrn, 5 Mawrth 2022	Quay Building, Ffordd y Fron, Cei Connah CH5 4PJ	11am - 1pm
Dydd Sadwrn, 5 Mawrth 2022	Neuadd Bentref Llaneurgain, Stryd Fawr, Llaneurgain, CH7 6BQ	2-4pm
Dydd Sadwrn, 5 Mawrth 2022	Sefydliad Coffa Rhyfel Queensferry, Gorllewin Ffordd Caer, Queensferry, CH5 1SA	5-7pm
Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022	Ellesmere Port Civic Hall, Civic Way, Ellesmere Port, CH65 0AZ	3-7pm
Dydd Sadwrn, 19 Chwefror 2022	Cyflwyniad ar-lein - archebwch yn www.hynethub.co.uk	1-2pm
Dydd Iau, 24 Chwefror 2022	Cyflwyniad ar-lein - archebwch yn www.hynethub.co.uk	6-7pm
Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022	Cyflwyniad ar-lein - archebwch yn www.hynethub.co.uk	11am - 12pm

3.5.12. Cymerir yr holl ragofalon COVID-19 priodol a dilynir canllawiau perthnasol y Llywodraeth ar adeg yr ymgynghoriad.

3.5.13. Os bydd angen canslo'r digwyddiadau wyneb yn wyneb oherwydd cyfyngiadau COVID-19, cynhelir un digwyddiad ar-lein ychwanegol ar gyfer pob digwyddiad wyneb yn wyneb a gaiff ei ganslo. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r newidiadau hyn gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, diweddariadau mewn grwpiau cymunedol a cherdyn post wedi'i ddiweddarau a ddosberthir ledled y parth ymgynghori.

MANNAU ADNEUO

3.5.14. Trwy gydol y cyfnod ymgynghori, bydd copïau caled o'r llyfryn a Chrynodeb Annhechnegol o'r adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol ar gael i'w harchwilio mewn manau adneuo. Bydd yr holl ddogfennau ar gael ar-lein. Bydd hyn yn amodol ar gyfyngiadau COVID-19 ar adeg yr ymgynghoriad.

3.5.15. Y manau adneuo fydd:

Lleoliad a chyfeiriad	Oriau agor
Llyfrgell Ellesmere Port Civic Way, Ellesmere Port, CH65 0BG 0151 337 4684	Dydd Llun 9am-7pm, Dydd Mawrth 9am-5pm, Dydd Mercher 9am-5pm, Dydd Iau 9am-7pm, Dydd Gwener 9am-7pm, Dydd Sadwrn 9am-1pm, Dydd Sul Ar Gau
Llyfrgell y Fflint Heol yr Eglwys, Y Fflint, CH6 5AP 01352 703737	Dydd Llun 9:30am-5pm, Dydd Mawrth 9:30am-7pm, Dydd Mercher 9:30am-5pm, Dydd Iau 9:30am-7pm, Dydd Gwener 9:30am-5pm, Dydd Sadwrn 9:30am-12pm, Dydd Sul Ar Gau
Llyfrgell Prestatyn 21 Rhodfa Brenin, Prestatyn, LL19 9AA 01745 854841	Dydd Llun 9.30am-6pm, Dydd Mawrth 9.30am-5pm, Dydd Mercher 9.30am-1pm; Dydd Iau 9.30am-5pm, Dydd Gwener 9.30am-5pm, Dydd Sadwrn 9.30am-12.30pm, Dydd Sul Ar Gau
Llyfrgell Caer yn Storyhouse Hunter Street, Caer, CH1 2AR 01244 409113, dewis dau	Dydd Llun - Dydd Sadwrn 8.30am-7pm, Dydd Sul 9.30am-6pm.

3.5.16. Os bydd angen canslo'r defnydd o fannau adneuo oherwydd cyfyngiadau COVID-19, bydd y deunyddiau'n parhau i fod ar gael ar-lein. Bydd copïau caled o'r llyfryn a Chrynodeb Annhechnegol o'r adroddiad effaith amgylcheddol rhagarweiniol ar gael ar gais hefyd, ni waeth beth fo'r sefyllfa o ran COVID-19. Gwneir manylion am sut i wneud cais am gopïau caled yn glir ar y cerdyn post a ddosberthir ledled y parth ymgynghori.

3.6. CAEL GAFAEL AR SYLWADAU

SUT Y GALL POBL YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

3.6.1. Bydd ffurflen sylwadau ar-lein ar gael fel y gall pobl gyflwyno eu sylwadau a'u safbwyntiau ar y Datblygiad Arfaethedig. Dyma fydd y prif ddull o gasglu sylwadau ar yr ymgynghoriad. Fel arall, bydd pobl yn gallu cyflwyno sylwadau drwy e-bostio info@hynet.co.uk, neu drwy'r post gan ddefnyddio Rhadbost HYPNET NORTH WEST.

- 3.6.2. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ar yr ymgynghoriad fydd dydd Mawrth, 22 Mawrth 2022, am 11.59pm.

RHEOLI DATA YR YMGYNGHORIAD

- 3.6.3. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn rhan o'r ymgynghoriad yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Dim ond i helpu i ddeall safbwyntiau am y Datblygiad Arfaethedig y defnyddir y data. Ni fydd y data'n cael eu defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. Caiff y data eu coladu a'u dadansoddi i helpu'r gwaith o adrodd ar sylwadau yr ymgynghoriad. Nid yw'r Ymgeisydd, ac ni fydd, yn gwerthu gwybodaeth bersonol.
- 3.6.4. Caniateir trosglwyddo manylion y bobl a'r sefydliadau sy'n darparu ymatebion, a chopi o unrhyw ymateb i'r Arolygiaeth Gynllunio pan mae'n gofyn am yr wybodaeth honno i'w helpu i asesu a yw ein hymgyngoriad cyn ymgeisio yn ddigonol ac yn unol â'r broses gynllunio. Dylai unrhyw un sy'n ymateb dybio y bydd sylwedd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad a ddarperir yn cael ei rannu â'r Arolygiaeth Gynllunio, ac, o dan y manylion personol, bydd yn cael ei gynnwys mewn atodiad i'r adroddiad ymgynghori a gyhoeddir ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.
- 3.6.5. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu coladu a'u dadansoddi. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried yn ofalus a byddant yn cyfrannu at ddatblygu'r Datblygiad Arfaethedig ymhellach. Caiff y sylwadau hyn eu dadansoddi ochr yn ochr ag unrhyw ymatebion a'r holl ymatebion a dderbynnir yn rhan o weithgareddau ymgynghorol eraill a gynhelir yn unol â Deddf Cynllunio 2008 a sylwadau a dderbynnir oddi wrth randdeiliaid a rheoleiddwyr allweddol.
- 3.6.6. Bydd esboniad o sut y rhoddwyd sylw i'r sylwadau a dderbyniwyd, a phan fo hynny'n ymarferol, sut y maent wedi llywio a dylanwadu ar y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adrodd mewn Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cyd-fynd â'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio 2008.
- 3.6.7. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori'n cynnwys crynodeb o'r broses ymgynghori a gynhaliwyd yn unol â'r ddogfen hon, y sylwadau a dderbyniwyd a sut y maent wedi dylanwadu ar y Datblygiad Arfaethedig.
- 3.6.8. Nid yr ymgynghoriad statudol yw cyfle olaf y gymuned i wneud sylwadau ar y cynnig. Pan fyddwn wedi cyflwyno'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, bydd cyfleoedd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y dogfennau cais, ac i gymryd rhan yn yr Archwiliad a gynhelir gan yr Awdurdod Archwilio. Bydd y rhain yn cael cyhoedduswydd da ar yr adeg briodol yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008.

ATODIAD A

Rydym yn cynnig ymgynghori â'r rhanddeiliaid allweddol anstatudol canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr ymgynghoreion statudol.

- Cheshire and Warrington LEP
- British Trust for Ornithology
- rECOrd – Biodiversity Information Centre for Cheshire, Halton, Warrington and Wirral
- Cheshire and Wirral Ornithological Society
- Merseyside BioBank
- Greater Manchester Local Record Centre
- Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- North West Hydrogen Alliance
- North West Business Leadership Team
- Cyfeillion y Ddaear
- Greenpeace UK
- Chester Sustainability Forum
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Campaign to Protect Rural England
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- British Trust for Ornithology
- Cymdeithas y Tiffeddianwyr
- Chester BID
- Sealand Road BID
- Avenue Services
- Extinction Rebellion
- Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy

- Cadw
- Comisiynydd y Gymraeg
- ASau Lleol ac ASau y Cynulliad
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Cheshire Wildlife Trust

Byddwn yn ymgynghori â'r grwpiau cymunedol canlynol:

- Cronicl y Pum Pentref
- Flint and District Lions Club
- Flint Local History Society
- Flintshire Community Walks
- Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint (Canolfan Ymwelwyr Parc Gwepa)
- Cymdeithas Hanes Sir y Fflint
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Cyfeillion Parc Gwepa
- Sŵ Caer
- Cwrs golff Old Oaks
- Mere Lane Fishery
- Foregolf
- The big shoot - Clay pigeon experience
- Parc anifeiliaid Greenacres
- Hawarden & Ewloe Community Woodland
- Northop Hall Cricket & Hockey Club
- Clwb Golff Llaneurgain
- Highfield Hall - Lleoliad priodasau Gogledd Cymru
- Clwb criced Llaneurgain
- Leadbrook hall shooting ground
- Canolfan Astudiaethau Maes Cymdeithas Naturiaethwyr Glannau Dyfrdwy
- OYO Mountain Park Hotel
- Flint Golf Club
- CEMEX Halkyn Quarry
- Wilder ways Bushcraft North Wales
- Misty Waters Caravan and Chalet Park

- Maes Carafannau Pen-Y-Glwl
- Caerwys & District Clay Target Club
- Gyrn Estate Carp Fisheries
- Castell Gyrn
- Cymdeithas Ceffylau Prydain
- Grŵp Moch Daear Clwyd
- Grŵp Ystlumod Clwyd
- Cyngor Archaeoleg Brydeinig (Cymru)
- Dee Wildflowers and Wetlands
- Meysydd Chwarae Cymru
- Halkyn Graziers Association
- Halkyn Common Joint Consultative Board
- National Gypsy Council
- Cymdeithas y Cerddwyr
- RSPB Cymru
- Sustrans
- Tenant Farmers Association
- Ynyshir Farm Campsite
- Emlyn's Coppice - Luxury Glamping
- Tree Tops Caravan Park North Wales
- Lyons Mounds Holiday Home Park
- Afon Dyfrdwy - Y Parlwr Du
- Point of Ayr Caravan Park
- Talacre Beach Caravan Park
- Hilton Park
- Chester Residents Association Group